**EUR-07-02(p4)**

**Pwyllgor Materion Ewropeaidd ac Allanol**

| | |
|---|---|
| **Dyddiad:** | **5 Rhagfyr 2002** |
| **Amser:** | **14.00** |
| **Lleoliad:** | **Ystafell Pwyllgor 3&4** |
| **Teitl:** | **Dyfodol y Cronfeydd Strwythurol** |

**Diben**

1. Mae'r papur yn adrodd ar seminar a gynhaliwyd ym Mrwsel ar 30 Medi ynghylch dyfodol gweithgareddau adnoddau dynol o fewn y Cronfeydd Strwythurol. Mae'n bapur i'w nodi.

**Crynodeb**

2. Ar ddechrau'r seminar ac eto ar ei diwedd, gwnaeth y Comisiynydd Diamantopoulou ac Odile Quintin alw am gynnydd "enfawr" yn y buddsoddiad yng nghyfalaf dynol y Cronfeydd Strwythurol, hynny er mwyn cefnogi Agenda Lisbon. Roedd ymyriadau'r Comisiwn wedi rhoi'r argraff y byddai Cronfa Gymdeithasol Ewrop (ESF) yn parhau, a diystyrwyd cynnig mai un Gronfa Strwythurol y dylid ei chael. Cynhaliwyd tri gweithdy yn ystod y seminar ac roedd yr adborth a gafwyd ganddynt yn adlewyrchu'r amrywiaeth barn ymysg y cyfrannwyr, ac ni ddaethpwyd i unrhyw gasgliadau pendant. Roedd y safbwyntiau'n amrywio o alwadau i'r ESF ganolbwyntio'n fwy ar ddatblygu'r gweithlu, i ymestyn cwmpas ESF iddi ddelio â materion polisi cymdeithasol ehangach na'r farchnad lafur e.e. tlodi plant.

**Cefndir**

3. Yng ngwanwyn 2000, pennodd uwch-gynhadledd Lisbon agenda uchelgeisiol i Ewrop ar gyfer tyfu'n economi sy'n seiliedig ar wybodaeth, ac i honno fod y fwyaf cystadleuol o'i bath yn y byd. Economi a fyddai'n gallu tyfu'n gynaliadwy ac yn esgor ar fwy o swyddi gwell a mwy o gydlyniant cymdeithasol. Mae gofyn i ni ymestyn hyn a chroesawu'r galw posibl am gymorth y Gymuned o fewn Undeb sy'n ehangu, er mwyn sicrhau bod y polisi strwythurol arfaethedig yn cael ei lywio i raddau helaeth gan anghenion y farchnad lafur.

4. Bydd y cam nesaf i ehangu'r Undeb Ewropeaidd yn arwyddocaol iawn o ran maint y problemau cydlyniant economaidd a chymdeithasol. Nid oes sicrwydd y bydd cynnydd cyfrannol yn adnoddau'r Gymuned yn mynd law yn llaw â chynnydd yn y galw am gymorth. Mae'r bwlch posibl rhwng yr anghenion a'r modd i'w bodloni yn golygu bod angen canolbwyntio'n fanwl iawn i weld sut y gellid defnyddio adnoddau'r Gymuned orau i wneud y gwahaniaethau mwyaf.

**Cydlyniant Economaidd a Chymdeithasol**

5. Yr Ail Adroddiad ar Gydlyniad Economaidd a Chymdeithasol wnaeth lansio'r drafodaeth ar bolisi cydlyniant yn y dyfodol mewn UE sydd wedi ehangu. Mae'n dadansoddi'r problemau economaidd a chymdeithasol sy'n wynebu Ewrop ac yn gofyn cwestiynau allweddol ynghylch datblygiad y Cronfeydd Strwythurol ar ôl 2006. Ym mis Mehefin, mynychodd swyddogion y Cynulliad y seminar gyntaf ar ddyfodol polisi rhanbarthol (ceir cofnodion ohono ym mhapur EEAC 04-02). Ym maes penodol cyflogaeth a materion cymdeithasol, tynnodd yr adroddiad sylw at y pedair prif flaenoriaeth ar gyfer polisi cydlyniant sydd yn deillio o'r agenda a bennwyd yng nghynhadledd Lisbon:

- Mwy o swyddi, a swyddi gwell;
- Cefnogi'r economi newydd a'r gymdeithas wybodaeth;
- Hybu cynhwysiant cymdeithasol;
- A chyfle cyfartal.

**Y Seminar Adnoddau Dynol**

6. Diben seminar mis Medi oedd datblygu'r drafodaeth hon a mynd i'r afael â'r materion sy'n codi wrth wynebu'r sialensiau hyn. Swyddog o'r Is-adran Dysgu Gydol Oes a swyddog o Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru fu'n cynrychioli Llywodraeth Cynulliad Cymru. Roedd cynrychiolaeth gan ELWa a Chyngor Partneriaeth y Sector Gwirfoddol hefyd.

7. Yn ei anerchiad agoriadol, gosododd y Comisiynydd Diamantopouou dair sialens:

- creu swyddi a gostwng lefelau diweithdra, yn arbenning yn ardaloedd Amcan 1;
- ehangu; a
- chenhedlaeth newydd o Gronfeydd Strwythurol.

Dywedodd mai swyddogaeth y cronfeydd oedd atal y peryglon sy'n dod yn sgil ailstrwythuro economaidd a chymdeithasol. Dylent gael eu cysylltu'n agosach ag agenda Lisbon, a dylai buddsoddi mewn cyfalaf dynol fod yn brif flaenoriaeth. Er gwaethaf Lisbon, nid oedd digon o fuddsoddi mewn cyfalaf dynol, ac roedd amrywiadau sylweddol o ran yr arian y mae Aelod-Wladwriaethau yn ei wario ar Ymchwil a Datblygu. Roedd yn rhaid i'r Llywodraethau sicrhau bod cyllid cyhoeddus yn cael ei ddefnyddio er budd y bobl. Er mwyn i'r cronfeydd barhau i fod yn effeithiol wedi i'r UE ehangu, roedd gofyn neilltuo mwy o adnoddau iddynt a phennu blaenoriaethau cliriach. Dylai Cronfeydd Strwythurol Ewrop ganolbwyntio ar gydlyniant cymdeithasol a chyflogaeth, gan bennu targedau penodol a monitro'r

canlyniadau. Dylid llunio strategaeth seml o amcanion strategol y gellid eu rhoi ar waith yn gyflymach.

### Gweithdai

8. Trafodwyd pedair blaenoriaeth thematig yr Ail Adroddiad ar Gydlyniad yn y tri gweithdy a gynhaliwyd yn ystod y seminar. Fe wnaeth cynrychiolwyr swyddogol y DU ymyrryd er mwyn pwysleisio bod angen gwerthuso gwerth ychwanegol yn fanwl, yn ogystal â'r cysylltiadau â Lisbon a Strategaeth Gyflogaeth Ewrop. Yn sgil gwerthuso'r ESF yn y DU, cafwyd tystiolaeth a oedd yn awgrymu ei bod yn cael yr effaith orau wrth helpu'r grwpiau mwyaf difreintiedig i ymuno â'r farchnad lafur. Dyma'r adborth a gasglwyd yn y gweithdai:

- **Mwy o swyddi a gwell swyddi/y gymdeithas wybodaeth –** Pwysleisiodd Mike Campbell, Cyfarwyddwr Asiantaeth Datblygu Sgiliau Sectorol, Prifysgol Sheffield, bod angen inni ddysgu o'r gorffennol o ran yr hyn sy'n gweithio orau a beth sy'n rhoi gwerth am arian. Dywedodd y dylai'r gallu i addasu gael mwy o bwyslais, a daeth i'r casgliad y dylid canolbwyntio'n fwy ar ddatblygu'r gweithlu. Dylai'r gweithgareddau gynnwys addasu sgiliau a chymwysterau i gydfynd â newidiadau yn y farchnad lafur, a phontio'r bwlch rhwng y sgiliau sydd ar gael a'r sgiliau sydd eu hangen trwy gael gwell gwybodaeth, cyngor a chanllawiau, ac efallai trwy ddiwygio'r farchnad lafur ymhellach.
- **Cynhwysiant Cymdeithasol –** ni wnaeth y cofnodwr nodi'r datganiadau, yn enwedig gan Lywodraeth y DU, y dylai'r ESF ganolbwyntio ar helpu pobl i ymuno â'r farchnad lafur. Dywedodd bod nifer o ddarpar aelod-wledydd wedi galw am ehangu'r ESF fel eu bod yn cynnwys cynhwysiant cymdeithasol, polisïau plant a'r henoed a materion megis iechyd a thai.
- **Cyfle Cyfartal –** roedd y gweithdy hwn am weld canolfannau'n cael eu sefydlu i fonitro cyfle cyfartal yn y Cronfeydd Strwythurol, yn ogystal â "gender budgeting", cynnwys mwy o fenywod yn y broses gwneud penderfyniadau, a newid agweddau ymysg athrawon a phlant ysgol. Mae gofyn i ni brif-ffrydio a chymryd camau cadarnhaol ar yr un pryd, ond roedd rhai Aelod Wladwriaethau yn canolbwyntio ar un agwedd ac yn anwybyddu'r llall. Mae sefyllfa menywod yng nghanol a dwyrain Ewrop wedi dirywio ers 1989, ac mae angen gweithredu er mwyn gwyrdroi hyn. Prin iawn oedd y cyfeiriadau at agweddau eraill o gyfle cyfartal.

### Cyfarfod Llawn Terfynol

9. Roedd cynrychiolwyr awdurdodau lleol Greater Manchester a Gogledd-ddwyrain Lloegr wedi dadlau dros symleiddio'r gwaith gweinyddu trwy gael un gronfa. Er iddo fynegi amheuaeth ynghylch pa mor ymarferol oedd gwneud hyn, dywedodd y Cadeirydd y byddai gofyn symleiddio'r broses waeth beth fydd strwythur y cronfeydd. Fe wnaeth y DU bwysleisio unwaith eto bod gofyn inni ystyried sut y gallai'r cronfeydd strwythurol gefnogi Strategaeth Gyflogaeth Ewrop a Lisbon, gan rybuddio y gallai ehangu cwmpas yr ESF leihau'r effaith bositif y mae'n yn ei chael ar hyn o bryd o ran helpu pobl i ymuno â'r farchnad lafur.

### Araith wrth gloi

10. Ailadroddodd Odile Quintin lawer o'r pwyntiau a wnaed gan y Comisiynydd Diamantopoulou h.y. mai'r strategaethau cyflogaeth a chynhwysiant cymdeithasol ddylai fod yn brif flaenoriaethau'r cronfeydd; bod yn rhaid wrth fuddsoddiad enfawr mewn adnoddau dynol; nad oedd seilwaith a buddsoddi mewn cyfalaf dynol yn ddau fater ar wahân; ac y dylid datblygu blaenoriaethau tiriogaethol a thematig. Dylid ceisio cydbwysedd rhwng y buddsoddiad yn y seilwaith a'r buddsoddiad mewn cyfalaf dynol yn ardaloedd Amcan 1, gan ganolbwyntio ar weithgareddau a fyddai'n hybu cydlyniant e.e. dysgu gydol oes a diwygio'r gwasanaethau cyflogaeth. Y tu allan i'r ardaloedd Amcan 1, dylid canolbwyntio ar ragweld a hybu newidiadau yn y gymdeithas wrth iddi ddatblygu'n gymdeithas wybodaeth. O ran cynhwysiant cymdeithasol, mae gofyn am ddull integredig a mesurau nad ydynt yn gysylltiedig â'r farchnad lafur nad yw'r ESF yn eu cefnogi ar hyn o bryd. Roedd gofyn adeiladu capasiti yn y Darpar Aelod-Wladwriaethau.

**Y Camau Nesaf**

11. Mae'r Comisiwn wedi nodi y bydd trafodaethau pellach yn cael eu cynnal, ond nid oedd yn glir pun a oedd hyn yn cyfeirio at y seminar symleiddio i'w chynnal yn gynnar yn 2003 neu at gyfarfodydd pellach a fydd yn canolbwyntio ar adnoddau dynol.

12. Ar 18 Hydref cynhaliodd Llywodraeth Cynulliad Cymru seminar yn Abertawe ar ddyfodol Cronfeydd Cydlyniant a Chronfeydd Strwythurol Ewrop. Estynnwyd gwahoddiad i aelodau'r Pwyllgor ac fe wnaeth y Prif Weinidog roi anerchiad. Rhoddodd gyfle da i gynnal trafodaeth gyhoeddus yng Nghymru ar ddyfodol y Cronfeydd Strwythurol, a pharatowyd adroddiad ar wahân ar y digwyddiad hwnnw. Erbyn diwedd 2003, bwriada'r Comisiwn Ewropeaidd gyhoeddi ei gynigion drafft ar bolisi cydlyniant economaidd a chymdeithasol ôl-2006. Bydd gofyn i'r DU ymateb i'r cynigion ac mae'n hanfodol bod Cymru yn cyfrannu at ymateb y DU. Diben y seminar yw cyfrannu at y broses honno trwy ddwyn y prif chwaraewyr ynghyd i ystyried anghenion Cymru yn y cyfnod ar ôl 2006.

**Cydymffurfio**

**13. Fel Aelod-Wladwriaeth, Llywodraeth y DU sy'n arwain y gwaith o ddatblygu a chydlynu'r polisi strwythurol a chydlyniant. Y DTI yw Is-adran Llywodraeth y DU sy'n gyfrifol am faterion cydlyniant; tra bod y Concordat ar Gydlynu Materion Polisi'r Undeb Ewropeaidd yn nodi'r canlynol:**

*"Cymryd rhan wrth lunio Polisïau'r DU (gan gynnwys Datrys*

*Gwahaniaethau)*

> B3.4 Bwriad y Llywodraeth yw i Weinidogion a swyddogion y gweinyddiaethau datganoledig chwarae rhan lawn mewn trafodaethau o fewn Llywodraeth y DU ar lunio safbwyntiau polisi'r DU ar yr holl faterion sy'n rhan o gyfrifoldeb y gweinyddiaethau datganoledig."

14. Swyddfa'r Dirprwy Brif Weinidog, gweinyddiaethau'r Alban a Gogledd Iwerddon a Llywodraeth Cynulliad Cymru sy'n gyfrifol am reoli rhaglenni'r cronfeydd strwythurol. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dirprwyo'r gwaith o reoli rhaglenni Cronfeydd Strwythurol presennol Cymru i Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru. Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac allanol sy'n rhoi cyngor i'r Cabinet ar faterion strwythurol a chydlynu polisi.

15. Nid oes unrhyw faterion ariannol yn deillio o'r papur hwn.

Lynda Attwell

WEFO

**Cysylltiadau: Cronfeydd Strwythurol ôl-2006: Jackie Brown, Yr Is-adran Materion Ewropeaidd ac Allanol, est 3157. jacqueline.brown@wales.gsi.gov.uk.**

Lynda Attwell

WEFO